**EITEMAU A OHIRIWYD AR GYFER Y CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN A GYNHALIWYD AR 8 RHAGFYR 2011**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr, E. G. Davies, K. Evans, R. Anthony Dew, Fflur M. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Bryan Owen, R. L. Owen, R. G. Parry OBE, Eric Roberts, P. S. Rogers, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr (Eitem 3 yn unig)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro (Eitem 3 yn unig)<br>Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)(Eitem 3 yn unig)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr B Davies, Gareth Jones (Eitem 3 yn unig). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Lewis Davies, Jim Evans, C. Ll. Everett, T. Ll. Hughes, W. T. Hughes, R. Dylan Jones, Rhian Medi, J. V. Owen, G. O. Parry MBE, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, E. Schofield, H. W. Thomas, Ieuan Williams, S. Williams. |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd O. Glyn Jones

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Dim.

**3 DATGANIAD A STRATEGAETH GYLLIDEBOL 2012/13**

Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro – bod Datganiad a Strategaeth Gyllidebol y Comisiynwyr yn amlinellu canllawiau cyllidebol cychwynnol y Comisiynwyr am y flwyddyn 2012/13 fel sail ar gyfer gweithredu gan Swyddogion ac ymgynghori gydag Aelodau.

Roedd gwaith wedi cychwyn i edrych ar ba arbedion pellach y gellid eu gwneud yn 2011-12 i gyfyngu'r effaith yn 2012-13 ac roedd yr holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu i gadarnhau a oedd unrhyw sgôp ar gyfer defnyddio balansau. Yn y cyd-destun hwn, roedd hi'n bwysig cofio bod yr

Adolygiad Gwario Cynhwysfawr (AGC) tair blynedd yn rhoi arwyddion o'r gwariant am 2013-14 a 2014-15 a oedd yr un mor heriol ac felly nid oedd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i unrhyw raddau i liniaru yn erbyn y lefel o arbedion yr oedd eu hangen yn opsiwn ymarferol. Gallai hynny olygu bod yr Awdurdod mewn sefyllfa fregus os bydd galwadau nad oes modd eu rhagweld i wario a beirniadaeth gan reoleiddwyr.

Ysgrifennwyd y datganiad cyllidebol yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol parhaus yn seiliedig ar y gyllideb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2011 am y cyfnod 2013-2014. Cadarnhawyd y cyd-destun hwn fel rhan o ddatganiad y Canghellor ar y gyllideb ym Mawrth 2011.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau diogelu ar gyfer Addysg a oedd yn cyfateb i 1% dros ben y cynnydd yn y dyraniad cyllid refeniw ar gyfer LlC gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer newid demograffig. Roedd LlC yn disgwyl y bydd yr arian hwn yn cael ei basio ymlaen i'r ysgolion. Roedd LlC wedi sefydlu trefniadau diogelu ar gyfer Gofal Cymdeithasol sy'n cyfateb i 1%. Gyda'i gilydd, roedd y gwasanaethau hyn yn cynrychioli mwy na hanner y gyllideb net.

Y rhagdybiaeth ar gyfer y Dreth Gyngor yn Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y gyllideb refeniw yw cynnydd o 5%. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yr adolygiad tâl a graddfeydd oedd un o'r risgiau mwyaf sylweddol ac un o'r elfennau mwyaf ansicr yn y gyllideb. Y rhagdybiaeth gyfredol, i bwrpas cynllunio, yw y byddai'r cynigion cyfredol fel yr oeddynt ar Chwefror 2011 yn parhau.

Yn seiliedig ar y setliad amodol ac ar y rhagdybiaethau sylfaenol yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw a chan gymryd y byddai'r Dreth Gyngor yn cynyddu rhwng 3-5%, roedd angen toriadau rhwng £3.7m - £4.2m y flwyddyn nesaf. Dylid nodi y bydd rhaid ychwanegu'r arbedion na chawsant eu cyflawni yn y RhBFf ar gyfer eleni at y targed ar gyfer toriadau. O ran cronfeydd wrth gefn, y rhagdybiaeth ar hyn o bryd oedd bod angen rhwng £4m-£4.5m yn y balansau cyffredinol gan ddibynnu ar y risgiau yn y gyllideb a gymeradwywyd. Roedd y rhagamcanion cyfredol ar gyfer 31 Mawrth 2012 yn uwch na hynny. Roedd sgôp hefyd i ryddhau peth arian o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Roedd y Comisiynwyr yn ystyried bod angen atgyfnerthu'r pwyslais a'r Ddatblygu Economaidd a Thwristiaeth gyda threfniadau rheoli yn cael eu hadolygu i gynorthwyo a manteisio ar y statws Parth Menter a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Comisiynwyr yn anelu at ddilyn disgwyliadau LlC ar gyfer cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol a thargedau eraill. Roeddynt yn credu hefyd y dylai'r canol corfforaethol fod yn rhan gref o'r broses o newid i wella llywodraethu corfforaethol a byddai'r canol corfforaethol yn cael ei adolygu i roi sylw i weithio'n fwy effeithiol ar lefel swyddogion mewn sawl maes.

Roedd paragraff 5.3 yr adroddiad yn cyfeirio at y manylion ynghylch sut roedd Comisiynwyr yn bwriadu cyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor Band D i'r eithaf tra'n cynnal y ddarpariaeth o wasanaethau i ddinasyddion a chymunedau Ynys Môn. Roedd y Comisiynwyr wedi gofyn i'r holl adrannau nodi gostyngiad gwirfoddol o 5% yn seiliedig ar wariant gros. Roeddent hefyd wedi gofyn am i brosiectau'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy gael eu hadnewyddu. Byddai hap-arbedion a newidiadau yr ymrwymwyd iddynt yn cael eu tynnu o'r cyllidebau lle mae hynny'n briodol.

Roedd y Comisiynwyr hefyd yn awyddus i gael diweddaru'r cynllun a'r blaenoriaethau cyfalaf yn wyneb y gostyngiad yn yr adnoddau a'r blaenoriaethau sy'n esblygu yn y cynllun corfforaethol. Roeddent hefyd yn dymuno gweld sylfaen yr asedau eiddo'n cael ei hail-leoli gyda threfniadau cyllido arloesol ac mewn partneriaeth lle mae hynny'n briodol. Roedd buddsoddi yn yr isadeiledd TGCh hefyd yn flaenoriaeth.

'Roedd y Cyngor wedi bod yn ymgynghori'n eang gyda chydranddeiliaid, sefydliadau partner a'r gymuned. Gofynnid i'r Pwyllgorau Sgriwtini ystyried materion cyllideb o fewn eu cylch gorchwyl ac efallai y byddai'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dymuno adolygu'r rhagdybiaethau cyffredinol.

Roedd yr amserlen fanwl ddrafft ar gyfer y gyllideb wedi ei dosbarthu/cyfathrebu i'r staff perthnasol gyda'r nod o gefnogi'r broses cynllunio busnes a chorfforaethol, gan ddod â chyllideb arfaethedig ymlaen ym mis Ionawr a chyllideb derfynol erbyn diwedd Chwefror i'w chymeradwyo gan y Cyngor yn gynnar ym mis Mawrth.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Jones y dylid galw Seminar yn gynnar ym mis Ionawr fel y gallai'r aelodau gael cyfle i drafod y gyllideb yn anffurfiol.

Roedd y Cynghorydd A. Morris Jones o'r farn bod y Cyngor hwn wedi gosod treth Gyngor gyfrifol dros nifer o flynyddoedd. Mynegodd ei bryderon ynglŷn â'r llithriad oedd wedi digwydd yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy a bod colli allan ar y 'llawr' wedi costio rhyw £400k i'r Awdurdod hwn. Holodd i ble yr oedd y £400k wedi mynd y flwyddyn ddiwethaf pan oedd wedi cael ei ddyrannu i'r canol corfforaethol. Byddai hefyd yn hoffi gwybod beth fu cost yr ymyrraeth cyn i'r Comisiynwyr gyrraedd. Roedd yn ystyried bod y cynnydd arfaethedig o 5% yn y dreth Gyngor am 2012-13 yn annerbyniol trwy bod mwyafrif poblogaeth yr Ynys eisoes wedi wynebu gostyngiad yn eu cyflogau. Roedd yn dymuno ei gwneud yn glir na fyddai ef yn pleidleisio yn y cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mawrth, i gael cynnydd o 5%.

**PENDERFYNWYD**

- **Mabwysiadu'r Strategaeth a'r Datganiad Cyllideb drafft, 2012-13 fel sail ar gyfer trafodaeth gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini, cydranddeiliaid a mudiadau partner sydd â diddordeb fel rhan o'r broses o gynllunio'r gyllideb.**

- **Bod trefniadau'n cael eu gwneud i alw Seminar i'r Aelodau ym mis Ionawr i drafod cyllideb 2012-13 y Cyngor.**

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD o ân Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

**5 Y TREFNIADAU AR GYFER YR UWCH GRŴP ARWEINYDDIAETH A'R GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd – Cyflwyniad llafar gan y Comisiynydd Byron Davies.

Roedd y Comisiynydd Davies yn dymuno llongyfarch y Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd y diwrnod cynt am ei ddycnwch yn dod i benderfyniad ynglyn â hyn. Fe fu'n un o'r sesiynau gorau iddo fod ynddynt lle'r oedd aelodau'n dangos yn glir eu bod eisiau ymchwilio'r materion oedd yn wynebu Awdurdod Lleol modern yng nghyd-destun setliad cyllidebol anodd. Byddai'r opsiwn o wneud penodiadau ar y cyd a chydweithredu er mwyn datblygu gwasanaethau'n fwy effeithiol yn lleihau costau yn y dyfodol ac roedd angen hefyd ddeall eu rôl yn creu newid i Fôn a'i dinasyddion a'i chymunedau. Roedd y Pwyllgor Penodi wedi rhoi ystyriaeth ofalus i adroddiad y Swyddog Adran 151 ac i Ddatganiad y Comisiynwyr ac wedi penderfynu derbyn argymhellion arfaethedig y Comisiynwyr a'u cryfhau hwy er mwyn gallu rheoli'r broses o wneud penderfyniadau ar y broses gyfatebu a hefyd wneud cyfraniad pellach i broses gyllidebol 2012-13 trwy ddileu'r swydd Pennaeth Gwasanaeth (Gwella) a rhoi'r cyfrifoldeb i'r Dirprwy Brif Weithredwr sydd wrth galon yr Uwch Grŵp Arweiniaeth. Roedd y Comisiynwyr yn fodlon derbyn y newidiadau hyn fel cyfraniad cadarnhaol gan y Pwyllgor Penodi ac roedd hynny wedi profi iddo bod Ynys Môn yn symud ymlaen ac yn cymryd cyfrifoldeb am ei dyfodol mewn ffordd gadarnhaol ac ymroddedig.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor iddi fod yn bleser cael bod yn Gadeirydd y Pwyllgor ddoe. Roedd yn teimlo y byddai'r newidiadau a gynigiwyd yn moderneiddio'r Cyngor am y ddegawd nesaf. Roedd yn fodlon iawn cynnig bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

Gofynnodd y Cynghorydd P. S. Rogers, fel cyn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi i'r Comisiynwyr gofio safle'r Iaith Gymraeg yn unrhyw broses benodi.

Dywedodd y Cynghorydd Tom Jones ei fod yn fodlon gyda'r strwythur oedd yn cael ei gynnig. Ond, roedd yn ystyried bod yna faterion adeiladu capasiti yn dal i fod angen sylw mewn rhai gwasanaethau.

Roedd y Cynghorydd A. Morris Jones yn derbyn bod angen adeiladu capasiti. Holodd a oedd costau diswyddo wedi'u cynnwys yn y costau?

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies y byddai'n tanseilio pethau i gynnwys y fath ffigyrau ar hyn o bryd.

Holodd y Cynghorydd A. Morris Jones a oedd ffioedd yr asiantiaid chwilio wedi'u cynnwys yn y costau?

Wrth ateb dywedodd y Comisiynydd Byron Davies nad oedd y ffigyrau hynny wedi'u cynnwys yn y costau. Yn sicr fe fyddai yna ffi ond fe fyddai'r Cyngor yn derbyn budd oherwydd y prif fater oedd sicrhau y byddai'r proses yn llwyddiant er mwyn cael yr ymgeiswyr iawn ar gyfer y swyddi. Byddai'r costau gyda'r mater hwn yn cael eu hadrodd yn llawn i'r Pwyllgor Penodi.

**PENDERFYNWYD wedi ystyried yr adroddiad gan y Swyddog Adran 151, adroddiad annibynnol gan Grwp Hay, sylwadau'r staff presennol, y cyngor Cyfreithiol ac Ariannol, i gymeradwyo argymhellion canlynol y Pwyllgor Penodi.**

- Cymeradwyo yn llawn bwriadau Richard Parry Jones i barhau fel Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaeth Tâl statudol hyd oni cheir gwybod yn wahanol a rhoddi'r awdurdod iddo, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynwyr ac Arweinydd y Cyngor, weithredu penderfyniadau canlynol y Pwyllgor Penodi.

  i I greu pedair swydd newydd - Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol i ddod i rym o 1 Ebrill 2012. Bydd y swyddi hyn ynghyd â'r Prif Weithredwr yn ffurfio Uwch Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor. Y rôl o wella'r Gwasanaethau Democrataidd i fod yn rhan o rôl y Dirprwy Brif Weithredwr, rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn rhan o rôl y Cyfarwyddwr Cymuned a rôl y Cyfarwyddwr Addysg i fod yn rhan o rôl y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

  ii I weithredu graddfeydd cyflog y swyddi newydd fel y cyflog 'spot' ar bwynt canolog y raddfa a argymhellir gan y Grwp Hay gydag ychwanegiad yn seiliedig ar "berfformiad" y tîm o hyd at 10% o'r cyflog 'spot' i'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth.

  iii Gweithredu'r broses ar gyfer penderfynu ar unrhyw ychwanegiad cyflog fel sydd yn yr adroddiad trwy drefnu apwyntio hwylusydd / cyflafareddwr annibynnol erbyn Ebrill 2013 i ystyried Adroddiad Canlyniadau'r Prif Weithredwr ar 2012-13 sydd i'w gyflwyno i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ac ar gyfer Sgriwtini Corfforaethol erbyn Tachwedd 2013.

  iv Creu dwy swydd newydd Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Phennaeth Swyddogaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol a Gweinyddol). Rôl y Swyddog Adran 151 statudol i fod yn rhan o rôl y Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau a rôl y Swyddog Monitro i fod yn rhan o rôl y Pennaeth Swyddogaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol a Gweinyddol).

  v Dileu'r swyddi cyfredol Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Addysg, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Priffyrdd, Amgylchedd a Chynllunio a'r swyddi Monitro a Gwasanaethau Democrataidd a hynny o adeg llenwi'r swyddi newydd o fewn yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth a lefel Penaethiaid Swyddogaeth.

  vi Trefnu bod deiliaid swyddi cyfredol, p'un a ydynt yn eu dal yn barhaol neu dros dro, yn gymwys i'w hystyried ar gyfer y swyddi newydd ar sail cyfatebu ac / neu i wneud cais am y swyddi newydd a grëwyd ar lefel uwch Grŵp Arweinyddiaeth a Phennaeth Swyddogaeth.

  vii Gweithredu'r broses benodi fel yr amlinellir hynny yn yr adroddiad a bod yn rhaid i ddeiliaid unrhyw swyddi cyfredol sy'n ceisio cymhathu ddangos 80% o gyfatebiad trwy

gymharu disgrifiadau swydd a manylion personol y swydd gyfredol a'r swydd newydd. Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r Pwyllgor Penodi ym mis Ionawr 2012 fel bod modd gwneud penderfyniadau ynghylch cymhathu ac unrhyw addasiadau eraill.

viii Gweithredu'r broses gymhathu i'w chwblhau ym mis Ionawr 2012 cyn hysbysebu am unrhyw swyddi newydd fydd ar ôl yn Chwefror 2012 a'r gwaith o hysbysebu am unrhyw swyddi newydd i fod ar sail ceisiadau unigol neu ymgeiswyr am gyd-benodiad o gyrff cyhoeddus cyfagos.

ix Trefnu bod unrhyw unigolyn yr effeithir arno / arni gan y cynigion hyn yn cael mynediad i bolisïau cyfredol y Cyngor ynglŷn â diswyddo, dod â chytundeb i ben ac anfantais, gyda hyn i fod yn effeithiol hyd at 1 Ebrill 2012. Bydd angen i'r Cyngor adolygu'r polisïau cyfredol yng ngoleuni'r setliad cyllidebol terfynol o safbwynt fforddiadwyaeth ac ymarferoldeb fel rhan o broses gyllidebol 2012-13.

x Gweithredu'r newidiadau i'r swyddi Penaethiaid Gwasanaeth (Cyllid, TGCh, AD a Pholisi) ac i gyfeirio'r swyddi hyn ynghyd â'r holl swyddi Penaethiaid Gwasanaeth eraill ar gyfer Arfarnu Swyddi yn ystod 2012-13 pryd y bydd swyddi pob un o weithwyr y Cyngor yn cael eu harfarnu gan y Pwyllgor Tâl a Graddfeydd yn ystod 2012-13. Hyd oni fydd y broses arfarnu swyddi wedi ei chwblhau i'r Penaethiaid Gwasanaeth, bydd taliadau honoraria yn cael eu gwneud i adlewyrchu unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn eu gofynion newydd yn y rôl Pennaeth Gwasanaeth o ganlyniad i'r adroddiad hwn

xi Parhau i ddefnyddio'r Grwp Hay i ddarparu asesiad annibynnol o hawliadau cymhathu 80% ar gyfer eu setlo yn ystod Ionawr 2012, i ddarparu asesiad annibynnol o'r holl ymgeiswyr ar y rhestr fer am swyddi newydd yn ystod Mawrth 2012 ac i gwblhau Arfarniad Swyddi Penaethiaid Gwasanaeth yn ystod chwarter cyntaf 2012-13.

xii Defnyddio Asiantiaid Chwilio i ddod o hyd i unrhyw ymgeiswyr unigol sy'n addas neu fudiadau sector cyhoeddus cyfagos fydd yn ystyried gwneud penodiadau ar y cyd i'r Uwch Grwp Arweinyddiaeth a'r swyddi Pennaeth Swyddogaeth gwag yn dilyn y broses gymhathu. Yr 'Asiant Chwilio' i baratoi hysbyseb ym mis Ionawr 2012, hysbysebu unrhyw swydd wag mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol a chylchgronau proffesiynol llywodraeth leol yn Chwefror 2012, paratoi rhestr hir o ymgeiswyr ar gyfer pob swydd i'w hystyried gan y Panel Penodi ym mis Mawrth 2012 ar gyfer creu'r rhestr fer.

- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i adrodd yn ôl ar benderfyniadau'r Pwyllgor Penodi uchod i'r Cyngor i'w cymeradwyo, gan ofyn i'r Cyngor awdurdodi unrhyw newidiadau dilyniadol i bolisïau neu'r Cyfansoddiad fel bydd angen i weithredu'r penderfyniadau, ac i gyfeirio unrhyw newidiadau i Weithgor y Cyfansoddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 1:15pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**